**CYFARFOD Y CYNGOR** **17 RHAGFYR 2025**

# AGENDA

1. **DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb a gyflwynwyd gan aelodau.

2. **DATGAN BUDDIANNAU**

Yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fuddiant sy'n rhagfarnu yn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3. **SWYDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED**

Derbyn diweddariad ar lafar gan Glerc y Dref ynghylch y swydd wag yn ward Cefndy.

4. **COFNODION**

Cadarnhau bod cofnodion isod cyfarfod y Cyngor a'i gyfarfod pwyllgor yn gywir (copïau ynghlwm):

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 19 Tachwedd 2025 | - | Cofnodion rhifau: | 94 - 111 |
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 19 Tachwedd 2025 | - | Cofnodion rhifau: | 19 - 23 |

5. **ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau y bu'r Maer a'r Dirprwy Faer ynddynt yn ystod y mis diwethaf (copi ynghlwm).

6. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – MIS HYDREF 2025 (ATODLEN A)**

Derbyn adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

7. **AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm).

8. **SESIWN HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol yn y cyfarfod.

9. **EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**10. CYLLIDEB A PRAESEPT 2026/27**

Ymhellach i gyfarfod arbennig y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2025, derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) a chymeradwyo'n ffurfiol yr amserlen ddiwygiedig i bennu'r gyllideb fanwl (y gyllideb derfynol i'w chymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2026); a chodi praesept am y flwyddyn ariannol nesaf a chynghori Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

**11. STRATEGAETH GYFATHREBU**

Derbyn adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref a'r Swyddog Cyfathrebu, Grantiau a Chymorth Gweinyddol (copi ynghlwm), i'r aelodau ei gymeradwyo.

**12. POLISI RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Derbyn adroddiad ar lafar Clerc y Dref, mewn cyfrinachedd.

**13. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion cyfrinachol a ganlyn er gwybodaeth i'r aelodau a chymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yr Is-bwyllgor Dinesig a chymdeithasol (copi i ddilyn) | - | 11 Rhagfyr 2025 | - | Cofnodion rhifau 9 - 15 |

**14. GWYLIAU'R NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL**

Cadarnhau'r trefniadau i ddirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref mewn ymgynghoriad â'r aelodau a ganlyn yn ystod y cyfnod rhwng 18 Rhagfyr 2025 tan 15 Ionawr 2026.

| | | |
|---|---|---|
| Materion Dinesig | - | Y Maer a/neu'r Dirprwy Faer |
| Materion Cynllunio | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio |
| Eitemau'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol |
| Unrhyw fusnes arall | - | Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol |

**15. DIWEDD Y CYFARFOD**

Y Maer i gyhoeddi diwedd y cyfarfod.